

YVONNE WILLIAMS

Mae Yvonne Williams yn hael iawn wrth roi o'i hamser ac yn cyflawni rôl hollbwysig wrth helpu ei chlwb a'i chymuned leol i ffynnu. Dim ond pum mlynedd yn ôl y dechreuodd hi fowlio, ond mae hi wedi dod yn rhan annatod o Glwb Cymunedol Harlequins Bowls yn gyflym diolch i'w brwdfrydedd, ei hymrwymiad a'i pharodrwydd i helpu lle bo angen.

Mae Yvonne wedi bod yn rhan o Bwyllgor Rheoli'r clwb ers sawl blwyddyn a daeth hi'n Is-lywydd y clwb yn 2025. Ochr yn ochr â'i rôl, mae hi'n rhannu'r cyfrifoldeb ar faterion diogelu yn y clwb ac yn cynnal sesiynau hyfforddi rheolaidd drwy gydol tymor yr haf. Boed ar y lawnt neu oddi arni, mae Yvonne bob amser yn barod i roi help llaw a chefnogi'r clwb.

A hithau'n eiriolwr angerddol dros ddatblygu aelodau newydd, mae Yvonne wedi arwain mentrau hyfforddi gydag ysgolion lleol, gan gyflwyno'r gamp i bobl ifainc. Mae hi hefyd wedi chwarae rhan flaenllaw o ran darparu sesiynau hyfforddi'r clwb ar nos Lun, gan annog aelodau newydd a phresennol i fagu hyder a datblygu'u sgiliau



Chwaraeon RhCT
Sport RCT

GWIRFODDOLWR
Y MIS

HYDREF 2026